# Llais Gwent

I bensiynwyr sy'n aelodau o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)

Gaeaf 2023

## Gair o Groeso gan y Rheolwr Pensynau

Ar fy rhan i a'r adran bensiwn, hoffwn eich croesawu i'ch rhifyn Gaeaf 2023 o Lais Gwent, ein cylchlythyr i bensiynwr sy'n aelodau o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen).

Mae uchafbwyntiau'r rhifyn yma'n cynnwys:

- Gwybodaeth am ein system Fy Mhensiwn Ar-lein newydd
- Gwybodaeth bwysig am Seibr-ddiogelwch

Os gallwch chi feddwl am unrhyw welliannau i'r gwasanaeth yr ydym yn ei gynnig i chi, ac yr hoffech eu gweld, byddem yn croesawu unrhyw adborth gennych. Mae ein rhif ffôn, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad post ar gael ar y dudalen olaf.

Rwy'n gobeithio y bydd y cylchlythyr yn llawn gwybodaeth ac yn ddiddorol i chi.



Cofion Gorau

*Jo Griffiths*

## Diwrnod Cyflog - Rhagfyr 2023

**Bydd eich pensiwn yn cael ei dalu ar**

**<u>Ddydd Gwener 29eg</u>**

**Rhagfyr 2023**

## Cynnydd I Bensiynau 8eg April 2024

Gallaf gadarnhau bod y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Medi 2023 yn 6.7% a bydd eich pensiwn felly'n cynyddu 6.7% ar Ddydd Llun 8fed Ebrill 2023.

Os talwyd eich pensiwn i chi am lai na 12 misefallai y byddwch yn derbyn cyfran o'r cynnydd.

### Slipiau Talu

Byddwn yn postio slip cyflog i chi ym mis Ebrill a Mai 2024 fel y gallwch weld faint mae eich pensiwn eich hun wedi codi. Rydym ond yn postio slip cyflog i chi ar unrhyw adeg arall pan fo swm y pensiwn yr ydym yn ei dalu i chi yn y mis hwnnw'n newid o £5 neu fwy.

### Eich P60 ar gyfer 2023/24

Byddwn hefyd yn anfon P60 atoch gyda slip cyflog Mai 2024. Dyma'ch **cofnod swyddogol** o'r pensiwn a dalwyd i chi yn ystod y flwyddyn, ac unrhyw dreth a dalwyd gennych chi.

**Os ydych wedi cofrestru i ddefnyddio Fy Mhensiwn Ar-lein gallwch argraffu eich slipiau cyflog a'ch P60 eich hun a chofiwch ein bod yn anfon slip cyflog i'ch cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein bob mis.**


***Gwelwch yr erthygl nesaf ynglŷn â chofrestru gyda Fy Mhensiwn Ar-lein.....***

# Cofrestru i gael Fy Mhensiwn ar-lein

Ewch i'n gwefan **www.gwentpensionfund.co.uk** a chlicio ar y ddolen Fy Mhensiwn Arlein ar frig ein hafan. Os ydych ar dyfais electronig symudol cliciwch ar y ‘ ☰ ’ a dewis **Fy Mhensiwn Arlein**


**Cam 1**

Cliciwch ar **Cofrestrwch ar gyfer fy Mhensiwn**





**Cam 2**

Cliciwch ar **Sign up for My Pension**




**Cam 3**


Teipiwch eich **Cyfenw, Rhif Yswiriant Gwladol, Dyddiad Geni a Cyfeiriad E-bost** a chliciwch ar **Cofrestru**




- Os yw’r cyfeiriad ebost sydd gennym yn ein cofnodion yr un â’r un a ddefnyddiwyd i gofrestru, yna byddwch yn derbyn ebost gennym gyda dolen i glicio arni i gwblhau eich cofrestriad. **Edrychwch yn eich ffolder Sbwriel rhag ofn y bydd yr ebost yn mynd yno.**
- Os nad oes gennym gyfeiriad ebost yn ein cofnodion, neu os ydych wedi defnyddio cyfeiriad ebost gwahanol I gofrestru, yna byddwn yn anfon allwedd gweithredu er mwyn i chi gwblhau’r cofrestriad. Anfonir hwn yn y post a dylech ei dderbyn mewn 3—5 diwrnod.

**Cam 4**

Cliciwch ar y ddolen yr ebost gweithredu y byddwn yn ei anfon atoch, neu ewch I dudalen Fy Mhensiwn Arleina chlicio ar y botwm **Gweithredu eich cyfrif** os byddwn yn anfon yr allwedd gweithredu atoch drwy’r post




Dewiswch ‘Ysgogi fy Ngyfrif’ unwaith y byddwch wedi ei dderbyn.

- Pan fyddwch yn gweithredu eich cyfrif, bydd y system yn gofyn i chi ddewis enw defnyddiwr, cyfrinair a dau gwestiwn di-ogelwch. Unwaith y byddwch wedi gwneud hyn, byddwch yn barod i **‘Mewngofnodi i Fy Mhensiwn’**

**Os cewch unrhyw anhawster wrth gofrestru neu fewngofnodi gallwch siarad gyda’n tîm systemau ar 01495 742299 neu eu ebostio yn**

**mypensiononline@torfaen.gov.uk**

# Dyfarniad a Rhwymedi McCloud

## Beth yw dyfarniad McCloud?

Pan ddiwygiodd y Llywodraeth gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yn 2014 a 2015, cyflwynwyd amddiffyniadau trosiannol ar gyfer aelodau hŷn. Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod aelodau iau cynlluniau pensiwn barnwrol a diffoddwyr tân wedi bod yn destun gwahaniaethu anghyfreithlon am nad oedd yr amddiffyniadau yn berthnasol iddynt.

Newidiodd rheolau cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys y CPLIL, o 1 Hydref 2023 oherwydd y dyfarniad. Mae'r newidiadau'n cael eu hadnabod fel rhwymedi McCloud, ac maen nhw'n dileu'r gwahaniaethu ar sail oedran a geir yn nyfarniad McCloud.

Yn y CPLIL, roedd aelodau hŷn yn cael eu gwarchod gan y tanategiad. Pan oedd aelod gwarchodedig yn ymddeol, roedd eu pensiwn yn y cynllun Cyfartaledd Cyflog Gyrfa wedi'i Adbrisio (CARE) yn cael ei gymharu â'r pensiwn a fyddai wedi cronni iddynt yn y cynllun cyflog terfynol. Pe bai'r pensiwn cyflog terfynol wedi bod yn uwch, roedd eu pensiwn yn cynyddu.

O 1 Hydref 2023 ymlaen, mae aelodau iau cymwys hefyd yn cael eu gwarchod gan y tanategiad. Nid yw pob aelod o'r CPLIL yn gymwys ar gyfer yr amddiffyniad. Bydd y tanategiad yn gwarchod pensiynau aelodau cymwys yr oeddynt wedi cronni yn ystod y cyfnod rhwymedi. Cyfnod y rhwymedi yw o 1 Ebrill 2014 tan 31 Mawrth 2022. Daeth amddiffyniad y tanategiad i ben yn gynharach os bu i chi adael y CPLIL neu os cyrhaeddoch chi eich oedran pensiwn arferol yn y cynllun cyflog terfynol cyn 31 Mawrth 2022.

**Nid yw Rhwymedi McCloud yn berthnasol i Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r CPLIL.**

## Beth fydd yn digwydd?

**Nid oes angen i chi gymryd unrhyw gamau.** Bydd y Gronfa'n gweithio allan a oes unrhyw bensiwn ychwanegol (tanategiad) yn ddyledus i chi. Ni fydd llawer o aelodau'n gweld cynnydd yn eu pensiwn oherwydd, yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r pensiwn a gronnwyd yn y cynllun Cyfartaledd Cyflog Gyrfa wedi'i Adbrisio (CARE), a ddaeth i rym ar 1af Ebrill 2014 ac sy'n berthnasol i bob aelod o'r dyddiad yma ymlaen, yn uwch nag y byddai wedi bod yn y cynllun cyflog terfynol.

Os ydych chi'n aelod gwarchodedig ac mae eich pensiwn o'r CPLIL eisoes yn cael ei dalu i chi, byddwn yn gweithio allan a fydd eich pensiwn yn cynyddu. Byddwn yn gwneud hyn cyn gynted ag y gallwn, ond mae angen amser i adolygu pob pensiwn.

**Does dim rhaid i chi gysylltu â ni. Gallwch fod yn sicr y byddwn ni'n cysylltu ag unrhyw un y bydd eu taliadau pensiwn yn cynyddu oherwydd rhwymedi McCloud. Byddwn yn ysgrifennu atoch chi dim ond os yw'r rheolau newydd yn golygu y bydd eich pensiwn yn cynyddu.**

## Dysgwch fwy

Gallwch ddysgu mwy am y rhwymedi trwy ddarllen y daflen ar ein gwefan yn [www.cronfabensiwngwent.co.uk/ffurflenni-a-chyhoeddiadau/taflen-ffeithiau-y-datrysiad-mccloud/](www.cronfabensiwngwent.co.uk/ffurflenni-a-chyhoeddiadau/taflen-ffeithiau-y-datrysiad-mccloud/)

**A**

Thudalennau McCloud gwefan genedlaethol aelodau CPLIL (Lloegr a Chymru: [www.lgpsmember.org/mccloud-remedy/](www.lgpsmember.org/mccloud-remedy/)

# Cadw mewn cysylltiad

**Hyd yn oed yn haws i'w wneud os ydych chi'n cofrestru gyda'r My Pension Online newydd ...**

## Rhoi eich cyfeiriad e-bost diweddaraf




Os yw'n well gennych i ni gysylltu â chi trwy e-bost rydym bob amser yn hapus i wneud hynny.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn sicrhau eich bod yn rhoi'r cyfeiriad e-bost diweddaraf inni. Os byddwch chi'n newid eich cyfeiriad e-bost cofiwch roi gwybod i ni fel y gallwn ni ddal ati i gysylltu â chi neu defnyddiwch eich cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein i ddiweddaru eich cyfeiriad e-bost. Byddwn bob amser yn ceisio cysylltu â chi trwy e-bost yn gyntaf.

# Symud Cartref?

Bob blwyddyn, rydym yn gwneud ein gorau i sicrhau nad ydym yn colli cysylltiad gyda'n haelodau. Rydym yn gwybod bod symud tŷ yn gyfnod prysur ac felly nid yw'n syndod bod pobl weithiau yn anghofio dweud wrthym eu bod wedi symud.

Felly, cofiwch ein rhoi ar eich rhestr o bethau i'w gwneud i'n hysbysu o'ch cyfeiriad newydd naill ai trwy ddiweddaru eich Cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein, e-bost, llythyr neu dros y ffôn. Mae ein manylion cyswllt ar y Calendr Dyddiau Talu Pensiwn 2024.

Os byddwn yn anfon llythyr at aelod ac os yw'n cael ei ddychwelyd i ni wedi ei farcio 'Ddim yn y Cyfeiriad hwn' neu 'Dychwelwch at yr Anfonwr' yna bydd yn rhaid i ni atal taliadau pensiwn nes byddwn yn clywed gennych.




**Ateb Sudoku y Penblethwr Pensiynwyr**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | 5 | 4 | 9 | 8 | 7 | 2 | 1 | 3 |
| 9 | 8 | 3 | 1 | 5 | 2 | 4 | 6 | 7 |
| 1 | 7 | 2 | 3 | 4 | 6 | 9 | 5 | 8 |
| 5 | 4 | 6 | 8 | 3 | 9 | 1 | 7 | 2 |
| 2 | 1 | 7 | 4 | 6 | 5 | 8 | 3 | 9 |
| 8 | 3 | 9 | 2 | 7 | 1 | 5 | 4 | 6 |
| 4 | 2 | 5 | 6 | 9 | 3 | 7 | 8 | 1 |
| 3 | 9 | 8 | 7 | 1 | 4 | 6 | 2 | 5 |
| 7 | 6 | 1 | 5 | 2 | 8 | 3 | 9 | 4 |

## Newid eich manylion banc

Gallwch newid manylion eich Cyfrif Banc trwy fewngofnodi i'ch cyfrif Fy Mhensiwn Ar -lein. Mae'r cyfleuster yno ar eich cyfer.

Gallwch newid eich manylion o hyd trwy gwblhau ffurflen os oes well gyda chi ac mae hon ar ein gwefan yn yr adran **Ffurflenni a Chyhoeddiadau** neu, rhowch wybod i ni eich bod eisiau un trwy'r post.

Gallwn dalu eich pensiwn dim ond i gyfrif yn eich enw chi neu gyfrif ar y cyd gyda'ch enw chi arno. Os byddwch yn newid yr enw ar y cyfrif, dylech hefyd adael i ni wybod i wneud yn siŵr nad oes problem wrth dalu eich pensiwn.

Dylech fod yn ymwybodol na fydd unrhyw newidiadau a wneir ar ôl i ni redeg ein cyflogres pensiynwyr yn dod i rym tan y mis canlynol. Byddwn bob amser yn dweud wrthych os na fydd y newid yn dod i rym tan ar ôl eich taliad pensiwn nesaf.

## Dywedwch wrthym unwaith

Rydym yn cymryd rhan yn y gwasanaeth “Dywedwch Wrthym Unwaith” sy’n cael ei gynnig pan fo marwolaeth yn cael ei chofrestru:

https://www.gov.uk/after-a-death/organisations-you-need-to-contact-and-tell-us-once

## Cadw golwg ar eich holl bensiynau

Efallai eich bod wedi cronni cynilion pensiwn gyda chyflogwyr eraill. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw mewn cysylltiad â nhw fel y gallan nhw dalu’ch pensiwn pan fo’n ddyledus. Os ydych chi wedi colli cyswllt â phensiynau blaenorol, gall y Gwasanaeth Olrhain Pensiynau helpu.

Ewch at www.gov.uk/find-pension-contact-details neu ffoniwch 0800 731 0193

## Cwestiynau Côd Treth

Mae Cyllid a Tholl-au Ei Mawrhydi (CThEM) yn dweud wrthym faint o dreth i gymryd o’ch pensiwn trwy eich cod treth. Ni allwn newid eich Cod Treth oni bai bod CThEM wedi dweud wrthym i wneud hynny. Os ydych chi am ofyn am eich cod treth neu ddyled treth, ysgrifennwch at:

Pay As You Earn and Self Assessment
HM Revenue and Customs
BX9 1AS

Neu ffoniwch: 0300 200 3300




***Bydd angen i chi roi eich Rhif Yswiriant Gwladola Chyfeirnod PAYE 948/T440N***

## Gwiriadau ardystiad bywyd I bensiynwyr dramor



O Amser I amser mae'n angenrheidiol I'r Gronfa Pensiwn Gwent (Mwyaf) gwirio ein cofnodion I bensiynwyr dramor ac I sicrhau taliadau pensiwn yn parhau I gael eu talu. Y broses ardystiad bywyd yn sicrhau ein cofnodion yn gywir, actio fel ynarferiad gwrth-dwyll ac yn cryfhau mesurau diogelwch tuag at asedau y Gronfa Pensiwn Gwent (Mwyaf).

Fel blynyddoedd blaenorol, mae’r broses Ardysiad Bywyd blynyddol wedi’w gyflawni mewn partneriaeth gyda Convera, Western Union yn gynt.

Diolch yn fawr i'r pobl sydd wedi dychwelyd y broses am y flwyddyn hon. Os nad ydych wedi derbyn eich llythyr gan Convera, ddylwch cysylltu â ni i adael ni wybod.

## Dweud wrthym eich bod yn symud dramor/

Os byddwch yn symud dramor, rydym yn gwybod ybydd yn amser prysur i chi,
gyda llawer i’w wneud! Fodd bynnag, i wneud yn siŵr and yw eich taliadau pensiwn yn cael eu heffeithio, mae’n
bwysig iawn eich bod yn dweud wrthym eich

Definyddiwch eich cyfrif "Fy Mhensiwn ar-lein" I newid eich cyfeiriad. Gallwch ffonio neu e-bostio I wneud hyn hefyd. Os oes angen I newid manylion taliad I cyfrif bank dramor, defnyddiwch y tudalen cysylltu "Fy Mhensiwn Arlein" I gysylltu gyda ni a byddwn yn anfon ffurflen cyfrif bank dramor felly ni'n gallu sefydlu hyn I chi.

## Fenter Twyll Genedlathol (FTG)

Mae dyletswydd ar Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) i ddiogelu'r arian cyhoeddus a weinyddwn. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol (FTG) yn golygu rhannu gwybodaeth gyda chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus er mwyn atal twyll.

Mae'r FTG yn gweithredu o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 trwy gyfateb data ar draws sefydliadau sector cyhoeddus, i atal a chanfod twyll.

Mae gofyn i ni roi gwybodaeth i Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer paru data.

Mae'r FTG yn gweithredu o dan y ***'Cod Ymarfer Paru Data'***. Gallwch ddarllen mwy o wybodaeth am baru data, a'r Cod, ar dudalen gwefan Swyddfa Archwilio Cymru, ar: **https://www.audit.wales/cy/ein-gwaith/menter-twyll-genedlaethol**

# Seiberddiogelwch

Seiberddiogelwch yw'r gweithgaredd o ddiogelu ein dyfeisiau fel ffonau clyfar, gliniaduron, cyfrifiaduron a rhwydweithiau cyfrifiadurol rhag cael eu heffeithio gan drosedd seiber a throseddwyr.

Mae hyn wedi dod yn fwy pwysig i ni fel cymdeithas gyda mwy o ddibyniaeth ar ddyfeisiau a'r rhyngrwyd i ni gwblhau gweithgareddau dydd i ddydd o fancio a siopa ar-lein at e-bost a chyfryngau cymdeithasol.

Mae'n bwysig i ni i gyd gymryd y camau cywir i ddiogelu ein data a dyfeisiau rhag cael eu dwyn neu eu difrodi gan droseddwyr.

**Defnyddio Cyfrineiriau**—Ffordd effeithiol o reoli'ch data.

**Cadwch yn Gryf** - Gwnewch eich gyfrinair un cryf ac osgowch gyfrineiriau cyffredin.

**Gwnewch e'n Gofiadwy** – Gwnewch cyfrinair yn un hawdd i chi gofio ond yn anodd i eraill ddyfalu.

**Cadwch e'n Ddiogel** – Defnyddiwch ap rheolwr cyfrineiriau i greu cyfrineiriau ac i'w cadw'n ddiogel.

Mae'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC) yn awgrymu defnyddio'r wefan www.haveibeenpwned.com i weld a yw eich gwybodaeth wedi cael ei wneud yn gyhoeddus fel rhan o dor-amod data.

### Beth yw gwe-rwydo?

Gwe-rwydo yw pan fo troseddwyr yn cysylltu ag unigolion trwy e-bost, ffôn neu neges destun gan esgus bod yn gwmni dilys i'ch twyllo chi i ddatgelu eich gwybodaeth bersonol iddyn nhw. Maen nhw'n ceisio gwneud i e-byst edrych yn ddilys ac maen nhw hyd yn oed yn clonio gwefannau go iawn i ennill eich hyder.

Os ydych chi'n credu eich bod chi wedi cael



eich targedu, gallwch fynd at wefan NCSC **www.ncsc.gov.uk/collection/phishing-scams** i ddysgu mwy am beth i'w wneud.

## Ewch ymlaen...rhowch wybod amdano!

Os rydych yn derbyn e-bost amheus, ddylech ei anfon ymlaen i report@phishing.gov.uk.

Am negeseuon testyn neu galwadau ffôn, anfonwch y gwybodaeth ymlaen i 7726 (yn rhâd ac am ddim). Am eitemau drwy'r bost, cysylltwch â'r busnes pethnasol.

Os ydych chi wedi colli arian dylech ddweud wrth Action Fraud am y drosedd. Gallwch fynd at www.actionfraud.police.uk i wneud hyn.

# Penblethwr Pensiynwyr

Rhowch gynnig ar y sudoku yma dros y gwyliau

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 7 | | 1 | |
| | 8 | | | | | | 6 | |
| | | | | | | | | 8 |
| | 4 | 6 | | | | 1 | | 2 |
| | | | | | 5 | | | |
| 8 | | 9 | | 7 | | | | 6 |
| 4 | 2 | | | | | | 8 | |
| | | | 7 | | 4 | | | |
| | | 1 | | | | | | 4 |

**Llenwch y pos syt mae pob rhes ar draws, pob colofn i lawr, a pob bocs 9 wrth 9 yn cynnwys y rhifoedd 1 i 9.**

**Gallwch ddarganfod ateb y sudoku ar dudalen 'Cadw mewn cysylltiad' eich cylchlythyr Llais Gwent.**

# Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)

## 2024 Diwrnodau Talu Pensiwn

### Ionawr

| S | L | M | M | I | G | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 |
| 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 |
| 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 |
| 28 | 29 | 30 | **31** | | | |

### Chwefror

| S | L | M | M | I | G | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 1 | 2 | 3 |
| 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 |
| 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 |
| 25 | 26 | 27 | 28 | **29** | | |

### Mawrth

| S | L | M | M | I | G | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 1 | 2 |
| 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 |
| 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
| 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 |
| 24 | 25 | 26 | 27 | **28** | 29 | 30 |
| 31 | | | | | | |

### Ebrill

| S | L | M | M | I | G | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 |
| 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 |
| 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 |
| 28 | 29 | **30** | | | | |

### Mai

| S | L | M | M | I | G | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 1 | 2 | 3 | 4 |
| 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 |
| 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 |
| 26 | 27 | 28 | 29 | 30 | **31** | |

### Mehefin

| S | L | M | M | I | G | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 1 |
| 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 |
| 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 |
| 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | **28** | 29 |
| 30 | | | | | | |

### Gorffennaf

| S | L | M | M | I | G | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
| 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 |
| 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 |
| 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 |
| 28 | 29 | 30 | **31** | | | |

### Awst

| S | L | M | M | I | G | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 1 | 2 | 3 |
| 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 |
| 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 | 24 |
| 25 | 26 | 27 | 28 | 29 | **30** | 31 |

### Medi

| S | L | M | M | I | G | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | **30** | | | | | |

### Hydref

| S | L | M | M | I | G | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 |
| 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 |
| 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 |
| 27 | 28 | 29 | 30 | **31** | | |

### Tachwedd

| S | L | M | M | I | G | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | 1 | 2 |
| 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 |
| 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
| 17 | 18 | 19 | 20 | 21 | 22 | 23 |
| 24 | 25 | 26 | 27 | 28 | **29** | 30 |

### Rhagfyr

| S | L | M | M | I | G | S |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | 30 | **31** | | | | |

Diwrnod Talu'ch Pensiwn yw diwrnod gwaith olaf y mis, sy'n ymddangos yn felyn ar y calendr.



**Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) , Cyngor Bwrdeistref Sirol, Pont-y-Pwl, Torfaen, NP4 6YB**

01633 647799

pensions.payroll@torfaen.gov.uk


**Fy Mhensiwn Ar-lein**

**Cofrestrwch Nawr!**



www.cronfabensiwngwent.co.uk

Pay As You Earn and
Self Assessment
HM Revenue and Customs
BX9 1AS
**Cyfeirnod PAYE 948/T440N**

0300 2003300